

**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**DYDD MERCHER 2 MA1 2001**

**ADRODDIAD MISOL Y GWEINIDOG DROS IECHYD A**

**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**1. MATERION STRATEGAETH:**

- 1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" – Cynllun Gweithredu
- 1.2 Fideogynadledda
- 1.3 Telefeddygaeth
- 1.4 Ehangu Addysg Feddygol (Israddedigion) ac Ymchwil yng Ngogledd Cymru

**2. PERFFORMIAD YR NHS**

- 2.1 Rhestrau Aros
- 2.2 Pwysedd Argyfwng

**3. GWELLA IECHYD A MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU:**

- 3.1 Asesu Effaith Iechyd
- 3.2 Clwy'r Traed a'r Genau
- 3.3 BSE

- 3.4 Trwyddedu Cigyddion
- 3.5 Archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
- 3.6 Strategaeth Faethiad

#### **4. RHEOLEIDDIO O ANSAWDD AC AROLYGU:**

- 4.1 Ymweld â Charchar Caerdydd
- 4.2 Y Comisiwn Gwella Iechyd - Adroddiad ar Ymddiriedolaeth NHS  
Sir Gaerfyrddin
- 4.3 Cyngor Gofal Cymru
- 4.4 Adroddiad Archwilio ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Sir Ddinbych
- 4.5 Gweithgor Adeiladau Ymarfer
- 4.6 Gwell Iechyd: Gwell Cyngor – Menter Hawliau Lles

#### **5. GWASANAETHAU PLANT:**

- 5.1 Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd
- 5.2 Ailddechrau Imiwneiddio BCG (Y Diciâu)

#### **6. GOFAL CYMDEITHASOL:**

- 6.1 "Hyblygrwydd" Deddf Iechyd 1999
- 6.2 Rheoliadau Llety Preswyl
- 6.3 Sefydlu Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth Newydd

## 6.4 Datblygu Rheoli Perfformiad mewn Gwasanaethau Cymdeithasol

# 7. AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU: GWEITHREDU

## 8. CYLLID

### 8.1 Sefyllfa Gyffredinol

### 8.2 Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS

## 1. MATERION STRATEGAETH

### 1.1 'Gwella Iechyd yng Nghymru' – Cynllun Gweithredu

#### Diweddariad 4 Ebrill

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddosbarthu mor eang â phosib, trefnais fod copïau a chrynodebau yn cael eu darparu i bob Awdurdod Iechyd ac Awdurdod Lleol fel eu bod yn cael eu dosbarthu i reolwyr a staff a hefyd yn cael eu gosod ym mhob safle iechyd ac adeilad cyhoeddus. Trefnais hefyd fod crynodeb cyffredinol yn cael ei anfon i bob aelod o staff NHS Cymru.

Mae holl Gadeiryddion y naw Grwp Gorchwyl a Gorffen wedi eu penodi ac mae aelodau wedi eu hysbysu o drefniadau eu Grwp Tasg. Cyfarfu'r Grwp Strwythurau, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddydd NHS Cymru, ar 27 Mawrth a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei argymhellion ymhen tri mis. Cadeiriais gyfarfod cyntaf y Grwp Llywio ar 9 Ebrill ac fe gynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grwp Gweithredu ar 11 Ebrill. Gofynnwyd i bob Grwp ddarparu fframwaith ar gyfer eu hamcanion tymor byr, tymor canol a thymor hir ynghyd â chynllun gwaith i'r dyfodol. Rwy'n disgwyl y bydd y gwaith o bennu ystod tasgau'r Grwpiau a'u hamcanion tymor byr wedi ei gwblhau erbyn mis Mehefin, ac mai dyma fydd prif ran y Ddogfen Dechnegol ddrafft gyntaf ar gyfer gweithredu'r Cynllun, i'w chyhoeddi yn ystod yr haf.

#### 1.2 Fideogynadledda

Cynhaliwyd rhith-gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llwyddiannus ar 28 Mawrth, gyda'r aelodau ar wasgar mewn tri safle. Roedd yr aelodau'n gytûn i'r fenter lwyddo ac y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i ddefnyddio cyfleusterau fideogynadledda mewn cyfarfodydd pan yn gymwys.

Cadeiriwyd y cyfarfod o Sefydliad Iechyd Gwledig, Neuadd Gregynog gan Kirsty Williams AC gyda Dai Lloyd AC yn Ysgol Gwyddor Iechyd, Prifysgol Cymru Abertawe. Cysylltodd aelodau a swyddogion iechyd eraill o ystafell fideogynadleda BT yn Arena Ryngwladol Caerdydd. Drwy gyfrwng sgriniau fideo, roedd pob safle yn gallu gweld yr aelodau a'r swyddogion iechyd yn y ddau safle arall. Cafwyd "cyntaf" arall hefyd, sef cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg.

### **1.3 Telefeddygaeth**

Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru, WHC (01) 010, ar 7 Mawrth yn gwahodd cynigion gan y gwasanaeth ar fod yn rhan o'r fenter Telefeddygaeth Cymru gyfan erbyn 30 Ebrill 2001. Mae'r ddau reolwr prosiect bellach wrth eu gwaith yn datblygu'r rhaglen hon, un yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth a'r llall am weithredu'r rhaglen.

### **1.4 Ehangu Addysg Feddygol (Israddedigion) ac Ymchwil yng Ngogledd Cymru**

Yn ystod ymweliad diweddar â Gogledd Cymru, gelwais ar sefydliadau Addysg Uwch Lleol ac Ymddiriedolaethau NHS i ffurfio consortiwm i ddatblygu cynigion ar gyfer ehangu addysg feddygol a chyfleusterau ymchwil ledled y rhanbarth. Mae'r cynigion yn cael eu datblygu mewn partneriaeth lawn â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru cyn i Grp Strategaeth Lefel Uchel eu hystyried, ac yna gwneud argymhellion terfynol erbyn mis Medi 2001.

## **2. PERFFORMIAD YR NHS**

### **2.1 Rhestrau Aros**

Cyhoeddwyd ffigurau diwedd blwyddyn 2000/01 ar 25 Ebrill. Mae'r ffigurau hyn (wedi eu cynnwys yn Atodiad A) yn dangos gostyngiad yn nifer y cleifion mewnol sy'n disgwyl triniaeth i 65,600, y lefel isaf ers Medi 1996. Mae ffigurau cleifion mewnol a thriniaeth achos dydd hefyd yn dangos y gostyngiad misol unigol mwyaf ers Mawrth 1999. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 2,500 o'r cleifion oedd wedi disgwyl mwy na chwe mis driniaeth cataract, ac mae rhestrau cleifion allanol, sydd wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf, wedi dechrau gostwng.

Dyma berfformiad rhagorol ac mae'n dangos effaith gadarnhaol y £40 miliwn ychwanegol a glustnodwyd er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros a phwysedd argyfwng a'r defnydd o dargedau heriol. Galluogodd yr arian ychwanegol hwn ni hefyd i ddarparu:

- 36 o ymgynghorwyr ychwanegol;
- 20 o welyau gofal argyfwng ychwanegol;
- mwy na 100 o welyau gofal dwys yn ystod y Gaeaf; a
- chlinigau a sesiynau llawdriniaeth ychwanegol i gyflymu triniaeth cleifion

Roedd targedau amseroedd aros y llynedd yn heriol ond maent wedi gosod y sylfaen i'r dyfodol. Rydym wedi dysgu gwersi sydd wedi llywio'r broses o osod targedau eleni, ac mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, megis Canser, gofal cardiaidd, cataractau ac orthopaedeg, a defnyddio arfer gorau a gwell cynhwysedd.

## **2.2 Pwysedd Argyfwng y Gaeaf**

Ni fu achosion eang o'r ffliw yn ystod y gaeaf hwn, yn rhannol oherwydd y rhaglen frechu helaeth a gyflwynwyd gan y Cynulliad. Fodd bynnag, bu ein hysbytai yng Nghymru o dan bwysau cyson yn ystod y gaeaf ac ar adegau, bu mwy o brysurdeb nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

Bu rhai canlyniadau rhagorol gan y grp pwysedd argyfwng, ac mae gwaith parhaus y grwp yn cael ei arwain gan Gyfarwyddyd yr NHS.

Bydd cyflwyno adroddiadau dyddiol yn parhau tan ddiwedd mis Mai. Mae cyflwyno adroddiadau misol yn parhau gyda'r wybodaeth yn cael ei bwydo i'r NHS ar Cymruweb. Mae'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn derbyn y wybodaeth hon.

Mae adrodd ar achosion o drosglwyddo gofal a ohiriwyd yn parhau yn ei gyfnod peilot. Ffurfiwyd gweithgor aml-asiantaeth i adolygu, ac os oes angen, i goethi'r broses o gasglu data. Mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn gwerthuso protocolau rhyddhau lleol sydd eisoes ar waith er mwyn asesu'r angen am gyfarwyddyd i'r dyfodol.

O ganlyniad i'r £40 miliwn ychwanegol, a ryddhawyd gennyf ym mis Mai y llynedd ar gyfer pwysedd argyfwng a gostwng rhestrau aros, bu cynnydd yn nifer ymgynghorwyr yr NHS yng Nghymru. Ddechrau Mawrth, penodwyd trideg chwech o ymgynghorwyr newydd gyda thrideg tri pellach wrthi'n cael eu penodi.

## **3. GWELLA IECHYD A MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU**

### **3.1 Asesu Effaith Iechyd**

Ddechrau Mawrth, lanswyd dogfen gyfarwyddyd newydd gennyf, a ddaeth yn sgil asesiad effaith iechyd y Cynulliad o Rhaglen Amcan 1. Wedi'i gynllunio er mwyn i sefydliadau a grwpiau ar bob lefel ei ddefnyddio, mae'n amlygu sut mae'r Rhaglen yn berthnasol i iechyd a, thrwy gyfrwng dull asesu syml, sut y gall helpu sefydliadau a grwpiau i ystyried iechyd fel rhan o'u prosiectau. Rwyf o'r farn fod hwn yn arf pwysig ar gyfer datblygu gweithredu lleol pellach lle'r ystyrir cymorth ar gyfer pobl i wella eu hiechyd a iechyd eu teuluoedd fel rhan integredig o adnewyddu cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Lansiwyd y ddogfen gennyf ym Mlaenau Gwent ac roeddwn yn falch o wneud hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn haeddu clod am y modd y maent yn dilyn dull integredig sy'n cydnabod fod gwella iechyd pobl yn rhan hanfodol o ddatblygu economaidd cynaliadwy. Yn ail, fe wnaeth y modd roedd prosiect canolfan gymunedol yr ymwelais â hi yn delio â materion iechyd argraff arna'i. Mae hyn yn galonogol gan fod gweithredu o'r fath yn hanfodol i'n hymdrechion i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

### **3.2 Clwy'r Traed a'r Genau**

Ceir datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion iechyd cyhoeddus yn y Pwyllgor.

Nid yw clwy'r traed a'r genau yn cael effaith ar y gadwyn fwyd ddynol ac felly, nid oes bygythiad i ddiogelwch bwyd. Cyflwynwyd y rheolaethau ar symud anifeiliaid byw, ac allforio cynhyrchion cig a llaeth, ar sail iechyd anifeiliaid yn hytrach na diogelwch bwyd oherwydd gallant fod yn gyfrwng ar gyfer trosglwyddo'r firws i anifeiliaid eraill.

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), asiantaeth weithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn adrannau amaethyddol i reoli lledaeniad y clefyd. Yn arbennig, mae'r MHS wedi gweithredu'n gyflym ac effeithlon i ystyried a chymeradwyo ceisiadau gan ladd-dai oedd yn dymuno gweithredu o dan y cyfyngiadau angenrheidiol a bennwyd gan ddeddfwriaeth clwy'r traed a'r genau.

Mae tri lladd-dy yng Nghymru wedi ildio eu trwyddedau'n wirfoddol (oedd yn caniatáu iddynt ladd anifeiliaid a fwriadwyd i'w gwerthu i bobl eu bwyta) i'w galluogi i gymryd rhan mewn cynlluniau difa mewn ardaloedd a heintiwyd gan glwy'r traed a'r genau.

Law yn llaw â'r camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol Clwy'r Traed a'r Genau, mae asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys y sector gwirfoddol, yn wynebu ystod o faterion yn codi o effaith y clwy ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Bydd Clwy'r Traed a'r Genau (CTG) yn effeithio ar unigolion, teuluoedd, yn cynnwys plant, a chymunedau lle mae pobl wedi'u heffeithio naill ai'n uniongyrchol gan y clwy ar eu ffermydd, neu'n anuniongyrchol yn sgil yr effaith ar dwristiaeth a busnesau gwledig eraill. Bydd yr effeithiau'n amrywio o straen, iselder a materion iechyd meddwl mwy difrifol o bosib, i faterion iechyd cyhoeddus i ffermwyr a'r rhai sy'n rhan o'r broses ddifa; ac effeithiau iechyd amgylcheddol yng nghyffiniau'r lleoliad difa ei hun, a thu hwnt.

Fel rhan o'u busnes arferol mae asiantaethau statudol ac anstatudol lleol yn delio ag effaith y clwy ar iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, o ystyried maint parhaus y broblem, rwyf wedi cymryd camau i asesu'r camau gweithredu sydd eisoes ar waith, a'r hyn y dylid o bosib ei wneud eto. Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r materion a'r sefyllfa bresennol. Byddaf yn

diweddarau'r wybodaeth hon yng nghyfarfod y Pwyllgor.

- Mae'r Sefydliad Iechyd Gwledig yn ymchwilio i natur a lefel defnydd llinellau cymorth gwledig yn ystod yr argyfwng CTG. Gofynnwyd i'r Sefydliad hefyd lunio cynnig ar gyfer astudiaeth fanylach o effaith CTG ar iechyd, gan ganolbwyntio ar Sir Drefaldwyn ac Ynys Môn.
- Mae'r llinell gymorth iechyd meddwl wedi derbyn 800 o alwadau ers canol mis Chwefror, ond nid yw hyn yn fwy na'r galwadau disgwylidig. Prin yw'r galwadau a ellir eu priodoli i CTG. Mae llinell Gymorth Straen Gwledig wedi derbyn 22 galwad ynglŷn â CTG yn ystod y mis diwethaf.
- Ni chafwyd adroddiadau na galwadau ychwanegol ar dimau iechyd meddwl cymuned ond mae staff yn y timau wedi awgrymu bod unrhyw gynnydd mewn gweithgarwch yn debyg o ddigwydd yn ddiweddarach. Efallai y bydd taliadau iawndal i ffermwyr a effeithiwyd yn help i liniaru problemau yn y tymor byr o leiaf (er na fydd hyn yn effeithio ar fusnesau anamaethyddol a effeithiwyd gan yr argyfwng).
- Mae Mind Clwyd wedi nodi cynnydd mewn cyfeiriadau o Fanciau a sefydliadau cyllid eraill lle'r oedd galwyr fel petaent yn bryderus. Nid ydym wedi gallu cadarnhau'r patrwm hwn yn ehangach.
- Mae meddygon teulu wedi derbyn gwybodaeth am wasanaethau cynghori a gwasanaethau straen eraill, ond hyd yn hyn nid oes gwybodaeth i ddangos cynnydd yn y galw am wasanaethau meddygon teulu.
- Mae cylchlythyr rheolaidd y Prif Swyddog Meddygol at holl feddygon Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys gwybodaeth am linellau cymorth straen gwledig a gwasanaethau cysylltiedig eraill. Nid yw Nyrsus Seiciatrig Cymuned wedi nodi cynnydd mewn gweithgarwch, ond maent wedi cael cyngor ar ddiheintio a gweithdrefnau eraill.
- Mae gweithwyr iechyd wedi bod mewn cysylltiad â'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yng Nghaerdydd, sydd, hyd yma, wedi dweud mai ychydig o alwadau a dderbyniwyd, os o gwbl, am eu gwasanaethau ar gyfer delio â'r argyfwng.
- Rwy'n gobeithio clywed yn fuan gan awdurdodau iechyd am ymatebion lleol.
- Rydym wedi cysylltu â'r holl Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r adrannau yn Ynys Môn, Sir Fynwy a Phowys wedi ymateb gyda manylion am y mesurau arbennig maent yn eu gweithredu i sicrhau mynediad i bobl oedrannus a chleientiaid eraill. Mae yna rai anawsterau (er enghraifft, gweithwyr gofal sy'n byw ar ffermydd nad oedd yn gallu teithio neu'n amharod i wneud hynny; a phroblemau gyda'r heddlu, y fyddin a swyddogion amaethyddol yn rhwystro mynediad ar gyfer, er enghraifft, y gwasanaeth pryd ar glud). Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymdeithasol yn hyblyg o ran addasu darpariaeth gwasanaeth, patrymau gwaith ayb. i leihau'r anawsterau ar gyfer staff a chleientiaid fel ei gilydd.

Mewn perthynas ag anghenion iechyd gweithwyr sy'n delio â Chlwy'r Traed a'r Genau, mae'r sefyllfa fel a ganlyn:

- Mae pecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon at ffermwyr a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y clwy, ac mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am linellau cymorth straen gwledig a gwasanaethau cysylltiedig.
- Darparwyd hyfforddiant i staff ystafell weithrediadau y Cynulliad sy'n gorfod delio â galwadau anodd ac rydym yn bwriadu ymestyn hyn i feysydd eraill. Mae Uned Iechyd a Lles staff y Cynulliad wedi hysbysebu eu gwasanaethau i staff sy'n delio â'r argyfwng. Yn ogystal, mae staff yr Adran Amaethyddiaeth yn cael defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan gyflenwr preifat. Mae camau eraill hefyd yn cael eu cymryd i gefnogi staff y Cynulliad a'r rhai a gyflogir ar sail cytundebol ar gyfer delio â'r difa, y gwaith o lanhau a materion cysylltiedig.

### **3.3 BSE**

Mae'r MHS yn gyfrifol am orfodi rheoliadau hylendid cig a rheolaethau BSE

UE-gyfan mewn lladd-dai trwyddedig a gweithfeydd torri cig. Cafodd methiant diweddar llwythi o fewnforion cig eidion i gydymffurfio â rheolau BSE (roeddynt yn cynnwys deunydd risg-benodol) ei ganfod gan yr MHS ar ôl iddynt gyrraedd pen eu taith ac fe dynnwyd y cig eidion a halogwyd o'r gadwyn gyflenwad bwyd. Cynlluniwyd yr archwiliadau ar fewnforion gan yr MHS i gynnal diogelwch bwyd drwy sicrhau bod cig eidion a fewnforiwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau ynglyn ag arferion bwyta pobl yn y DU.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi manylion am y lladd-dai sy'n troseddu, gan fynd i'r afael â'r holl achosion gyda'r Llywodraethau dan sylw. Mae hefyd wedi mynegi ei phryderon i'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad i ofynion gweithredu'r Asiantaeth, a phwysau gan Gomisiynydd Byrne, mae awdurdodau'r Almaen wedi atal trwyddedau dau o'u lladd-dai, a chymerwyd camau tebyg mewn llefydd eraill.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau i'r MHS er mwyn cyflymu'r broses o gynnal archwiliadau ar gig a fewnforiwyd, gan eu bod yn disgwyl cynnydd posib yn lefel y mewnforion o ganlyniad i argyfwng clwy y traed a'r genau.

### **3.4 Trwyddedu Cigyddion**

Cafwyd achosion o'r gwenwyn bwyd E-coli 0157 yng Nghanolbarth Yr Alban ym 1996, a arweiniodd yn uniongyrchol at farwolaethau 17 o bobl. Dim ond 500 o bobl eraill y gwyddir eu bod wedi bod yn sâl o ganlyniad i'r argyfwng hwn. Nodwyd mai prif achos yr argyfwng oedd trawshalogi o gig amrwd i fwydydd parod i'w bwyta o ganlyniad i arferion hylendid a thrin gwael



mewn siop gigydd.

Mae rheoliadau a gymeradwywyd yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2000 yn nodi bod yn rhaid i siopau cig sy'n gwerthu bwydydd amrwd a bwydydd wedi'u coginio gael trwydded gan adran iechyd yr amgylchedd eu hawdurdod lleol erbyn 30 Mehefin 2001. Bydd gofyn i gigyddion fodloni nifer o amodau cyn bod yn gymwys i gael eu trwyddedu.

Bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd a rheoli tymheredd presennol. Bydd angen iddynt hefyd weithredu system reoli diogelwch bwyd Rheolbwynt Critigol Dadansoddi Peryglon (HACCP) ddogfenedig a bydd angen i staff arolygu gael hyfforddiant hylendid uwch.

Bydd gofyn i siopau cig unigol dalu tâl trwydded blynyddol o £100. O ganlyniad i fenter HACCP a gyllidwyd gan y Swyddfa Gymreig, bydd y rhan fwyaf o siopau cig eisoes yn gweithredu HACCP, ac felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol (heblaw'r tâl trwydded ei hun) i gwrdd â gofynion y Rheoliadau.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio gyda chigyddion er mwyn medru derbyn ceisiadau trwydded amserol.

### **3.5 Archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd**

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi rôl allweddol i'r ASB o ran goruchwyllo gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol. Mae cynllun archwilio y Cytundeb Fframwaith yn nodi'r trefniadau a ddefnyddir gan yr Asiantaeth i archwilio bod awdurdodau yn darparu gwasanaeth effeithiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Bydd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiad yn erbyn cyfarwyddyd safonol a chysylltiedig y cytunwyd arno.

Bydd y broses o ddewis awdurdodau yn cael ei lywio gan ddata monitro i gynnwys lefelau perfformiad amlwg isel ac uchel. Bydd yna elfen hefyd o ddewis ar hap.

Bydd awdurdodau yn derbyn rhybudd o archwiliadau ymlaen llaw (3 mis fel rheol) er mwyn cynnal arolwg dogfen cyn-ymweliad a bydd yr archwiliad safle yn para am 2-3 diwrnod fel rheol. Bydd adroddiadau archwilio'n cael eu hanfon i awdurdodau lleol a bydd disgwyl i'r adroddiadau gael eu cyflwyno i'r aelodau etholedig o fewn y fforwm cyhoeddus lleol briodol. Bydd copïau o'r adroddiad archwilio'n cael eu gosod ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi crynodeb cenedlaethol o ddata monitro a chanfyddiadau archwiliad.

Y bwriad yw cwblhau'r gwaith o archwilio holl Awdurdodau Cymru o fewn 3 blynedd a bydd manylion rhaglen archwiliadau Cymru yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

## 3.6 Strategaeth Faethiad

Rwyf wedi gofyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ar y cyd â buddiannau allweddol, ddatblygu Strategaeth Faethiad i Gymru, er mwyn cydnabod bod gan ddiets cytbwys iach rôl bwysig mewn cynnal iechyd da.

Prif amcan y strategaeth yw nodi dulliau priodol ar gyfer gwella diet, yn arbennig ymysg grwpiau o dan anfantais.

Bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi ar:

- hyrwyddo polisiau bwyta'n iach;
- datblygu partneriaethau i hybu maethiad da;
- nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i fwyta'n iach;
- hyrwyddo a chyllido arfer da.

Sefydlwyd grwp llywio, o dan gadeiryddiaeth Joy Whinney (Cyfarwyddwraig ASB Cymru) i oruchwylio datblygiad y strategaeth. Mae'r grwp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Adran Hybu Iechyd, Grwp Iechyd Cyhoeddus a Grwp Addysg; o Awdurdodau Iechyd ac Awdurdodau Lleol; o Gyngor Defnyddwyr Cymru; Sefydliad Maethiad Prydain; Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru; a Chydweithrediad Cymru dros Iechyd a'r Amgylchedd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grwp ar 28 Mawrth ac mae'n bwriadu cyfarfod yn rheolaidd dros y 12 mis nesaf.

## 4 RHEOLEIDDIO O ANSAWDD AC AROLYGU

### 4.1 Ymweliad â Charchar Caerdydd

Bûm yn ymweld â Charchar Caerdydd ar 22 Chwefror i agor y Ganolfan Ddydd yn swyddogol, canolfan sy'n darparu ar gyfer carcharorion sy'n agored i niwed. Bu'r ganolfan hon o dan fygythiad o ganlyniad i doriadau yn y Gwasanaeth Carchardai ond llwyddom i helpu i bontio'r bwloch mewn cyllid gyda thaliad unigol o £19,000. Roedd hyn ar y ddealltwriaeth y byddai'r prosiect yn cael ei ail-lansio fel cynllun peilot a'i werthuso'n briodol ar y diwedd.

Ar ôl siarad â'r carcharorion oedd yn ei defnyddio nid oedd gennyf amheuaeth nad oedd y ganolfan yn hanfodol - dywedodd dau ohonynt y byddent wedi lladd eu hunain pe bai'r ganolfan wedi gorfod cau. Bûm yn gweld y cyfleusterau addysgol hefyd sy'n gwneud gwaith clodwiw i oresgyn anllythrennedd ac anrhifogrwydd ac i baratoi carcharorion ifanc yn arbennig ar gyfer y farchnad waith. Dangosodd fy nhrafodaethau gyda charcharorion a staff yn glir ein bod wedi cymryd y cam cywir drwy weithio gyda Thasglu Iechyd y Carchardai i geisio codi safonau gofal iechyd ym mhedwar carchar Cymru.

Bûm yn trafod fy mhryderon ynghylch ceiswyr lloches a fydd yn derbyn llety yn y carchar gyda'r Llywodraethwr. Roedd yn gallu fy sicrhau y byddai'r ystod lawn o gyfleusterau iechyd y carchar ar gael iddynt.

Ar 19 Ebrill, cyhoeddais y byddai Awdurdodau Iechyd yn derbyn £360,000 i weithio gyda'u cydweithwyr ym maes Gofal Iechyd Carchardai i wella iechyd meddwl yr NHS mewn carchardai. Rwy'n gweld gwella'r gwasanaethau hyn fel elfen hanfodol yn ein hymdrechion i godi'r safonau gofal i garcharorion.

#### **4.2 Y Comisiwn ar gyfer Gwella Iechyd – Adroddiad ar Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin**

Cyhoeddodd y Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) ei adroddiad ar ei ymchwiliad i Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin ar 15 Tachwedd, ac fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor wythnos yn ddiweddarach. Bydd y CHI, yr Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Dyfed-Powys yn dychwelyd at y Pwyllgor ar 16 Mai i adrodd ar gynnydd rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

#### **4.3 Cyngor Gofal Cymru**

Mae Papur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Cymru "*Adeiladu ar gyfer y Dyfodol*" yn nodi rhaglen waith a gynlluniwyd i godi safonau ymysg y gweithlu gofal cymdeithasol. Y cynnig canolog yw creu corff statudol newydd o'r enw Cyngor Gofal Cymru, i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi safonau hyfforddi. Bydd y corff newydd yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPB).

Bydd y Cyngor yn wahanol iawn i gorff rheoliadol traddodiadol, ac yn cael ei redeg yn bennaf gan y proffesiwn ei hun. Bydd yr holl fuddiannau allweddol yn cael llais – a bydd defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn y mwyafrif. Bydd gan y Cyngor gadeirydd lleyg, a bydd gweddill ei aelodau'n cynrychioli cyflogwyr o bob sector, cymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur, a buddiannau addysgol a hyfforddiant.

Mae'r broses o benodi Cadeirydd i'r Cyngor ar y gweill, gyda chyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer 4 Mai a threfniadau ar gyfer penodi aelodau mewn llaw. Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) wedi dod i ben a'r rheoliadau nawr yn mynd trwy weithdrefnau'r Cynulliad.

#### **4.4 Adroddiad Archwilio ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Sir Ddinbych**

Daeth adroddiad gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol i'r

casgliad bod gwasanaethau cyffredinol Sir Ddinbych i oedolion â salwch meddwl yn parhau'n is na'r safonau a ddisgwylir er bod nifer o'r gwasanaethau yn gadarnhaol.

Cynhaliwyd yr archwiliad ym mis Ionawr 2000 a dyma'r cyntaf mewn cyfres ledled Cymru. Daeth yr arolygwyr i'r casgliad nad oedd ystod digonol o wasanaethau i ddarparu dewis digonol i bobl â salwch meddwl, yn arbennig y rhai oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Er bod perthynas waith dda gyda rhai asiantaethau iechyd ac asiantaethau eraill, roedd angen mwy o waith i sicrhau cyfeiriad clir i wasanaethau salwch meddwl yn y dyfodol.

Yn ei ymateb, mae'r Cyngor yn cydnabod bod "yr adroddiad wedi bod yn gatalydd gwerthfawr ar gyfer archwilio a choethi newid pellach." Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu i roi 11 argymhelliad yr adroddiad ar waith, adroddiad a gynlluniwyd i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn Sir Ddinbych.

#### **4.5 Gweithgor Adeiladau Ymarfer**

Rwyf wedi derbyn adroddiad terfynol y Gweithgor Adeiladau Ymarfer. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys argymhellion i wneud y canlynol:

- cyflwyno hyblygrwydd i ddatganiad Ffioedd a Lwfansau Meddyg Teulu a gynlluniwyd i hyrwyddo datblygiad;
- cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau iechyd o ran sicrhau datblygiad;
- sicrhau mwy o hyblygrwydd yn y ffordd o ddehongli'r rheolau presennol.

Mae swyddogion eisoes wedi dechrau ar y gwaith gweithredu. Anfonwyd copïau o'r adroddiad at holl aelodau'r Pwyllgor a bydd yr NHS yn derbyn copi y mis hwn. Bydd yr adroddiad hefyd yn llywio'r Strategaeth Gofal Sylfaenol.

#### **4.6 Gwell Iechyd: Gwell Cyngor – Menter Hawliau Lles**

Ar 1 Chwefror, fel rhan o gynlluniau gwario yr NHS, addawyd £2 miliwn dros dair blynedd i gyllido gweithwyr hawliau lles mewn gofal sylfaenol. Gallaf gyhoeddi nawr y bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori (NACAB). Bydd y cynllun yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o 68 canolfan ledled Cymru. Rwyf am i'r NACAB weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i roi cyngor i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Bydd y fenter yn helpu Meddygon Teulu i fynd i'r afael â phroblemau meddygol sy'n deillio o dlodi, methiant i gael mynediad at ofal cymdeithasol neu broblemau gyda hawliau lles. Mae

methu hawlio budd-daliadau yn broblem sy'n effeithio'n andwyol ar y bobl fwyaf anghenus ac yn golled sylweddol i Economi Cymru.

Trwy fuddsoddi £30,000 mewn gweithiwr hawliau lles, mae'r NACAB yn cyfrif y gallai'r gweithiwr hwnnw gael £250,000 y flwyddyn yn rhagor o fudd-daliadau wedi'u hawlio gan eu cleientiaid. Gan fod amgylchiadau economaidd a chymdeithasol yn dylanwadu'n gryf ar iechyd, rwy'n credu y bydd y cynllun hwn yn gyfraniad pwysig o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd.

## **5. GWASANAETHAU PLANT**

### **5.1 Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd**

Rwy'n falch o gyhoeddi fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yr wythnos hon. Mae'r Fframwaith hwn yn elfen allweddol o amcanion y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant ac mae'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Rhaglen Plant yn Gyntaf.

Mae'n darparu ffordd systematig o ddadansoddi, deall a chofnodi'r hyn sy'n digwydd i blant a phobl ifanc gyda'u teuluoedd ac o fewn cyd-destun ehangach y gymuned maent yn byw ynddi.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi comisiynu'r NSPCC i gynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ym mis Ebrill a Mehefin ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi gweithrediad y Fframwaith. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ategu gan becyn hyfforddi 'The Child's World' a gynhyrchwyd gan yr NSPCC a Phrifysgol Sheffield.

Bydd copïau o'r Fframwaith ar gael yn y llyfrgelloedd ym Mharc Cathays a Thy Crughywel ac ar Wefan y Cynulliad Cenedlaethol ar: [www.cymru.gov.uk/rhoiplantyingyntaf](http://www.cymru.gov.uk/rhoiplantyingyntaf)

### **5.2 Ailddechrau Imiwneiddio BCG (Y Diciâu)**

Cafodd imiwneiddio rheolaidd mewn ysgolion ei atal ym mis Medi 1999 o ganlyniad i brinder brechlyn.

Ar 24 Mawrth, cyhoeddodd yr Adran Iechyd y byddai cyflenwadau o frechlyn BCG yn ailddechrau erbyn mis Gorffennaf 2001 a bod yna ddigon o stoc ar gael ar hyn o bryd i ailddechrau'r rhaglen imiwneiddio reolaidd mewn ysgolion ledled y DU.

Mae'r Cynulliad wedi gofyn i Awdurdodau Iechyd nodi eu hanghenion brechu a bwriedir cyflwyno rhaglen raddol o frechiadau dal-i-fyny. Y grwp cyntaf i'w imiwneiddio fydd y plant a fydd yn gadael ysgol eleni a'r bwriad yw cael y rhaglen yn ôl ar y llwybr cywir erbyn 2003.

## **6. GOFAL CYMDEITHASOL**

## **6.1 "Hyblygrwydd" Deddf Iechyd 1999**

Ar hyn o bryd, rwy'n ymgynghori ar delerau grant arbennig o £1.9 miliwn i awdurdodau lleol yn 2001-2 i gefnogi a hwyluso gofal hyblyg a chydweithio. Anfonwyd copïau o'r papur ymgynghori at aelodau'r Pwyllgor.

## **6.2 Rheoliadau Llety Preswyl**

Daeth rheoliadau newydd i rym ar 9 Ebrill 2001 (a wnaed o dan Orchymyn Sefydlog 22 gan ddefnyddio'r weithdrefn weithredol).

Effaith y diwygiadau i'r Rheoliadau Cymorth Cenedlaethol (Asesu Adnoddau) yw cynyddu'r terfynau cyfalaf uchaf ac isaf o £16,000 a £10,000 i £18,500 ac £11,500 ar gyfer prawf moddion a diystyru gwerth cartref preswylwr am y tri mis cyntaf o'u harhosiad mewn llety preswyl parhaol.

Bydd y diwygiadau hefyd yn diystyru taliadau iawndal prawf moddion a wnaed i ddioddefwyr clefyd Creutzfeldt-Jacob amrywiaethol (vCJD). Bydd taliadau cyfamserol o £25,000 i holl gleifion vCJD neu eu teuluoedd yn cael eu gwneud erbyn canol mis Ebrill (unwaith y daw'r rheolau nawdd cymdeithasol newydd i rym). Mae'r taliadau'n cael eu gwneud o ymddiriedolaeth a sefydlwyd o gronfeydd a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd. Nid yw'n bosib dweud eto pryd fydd y prif Gynllun yn hollol weithredol, ond mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd hyn yn digwydd cyn gynted â phosib wedi hynny.

Effaith y diwygiad i'r Rheoliadau Cymorth Cenedlaethol (Symiau ar gyfer Gofynion Personol) yw cynyddu'r swm wythnosol mae awdurdodau lleol yn ei dybio y bydd preswylwyr mewn gofal cartref nyrso neu breifat ei angen ar gyfer gofynion personol i £16.05.

## **6.3 Sefydlu Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth Newydd**

Bydd y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) newydd yn cael ei sefydlu yn ystod yr haf. Mae camau ar droed i wneud penodiadau i ddechrau sefydlu'r corff a fydd yn deillio o bartneriaeth glòs rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Adran Iechyd. Bwriedir i'r SCIE chwarae rôl allweddol mewn codi safon darpariaeth gofal cymdeithasol ledled Cymru a Lloegr ac mae'r Adran Iechyd a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi clustnodi £2 miliwn i helpu i sefydlu'r SCIE eleni.

Bydd SCIE yn adolygu ymchwil ac arfer yn drylwyr, yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cymdeithasol i bawb sydd ei hangen, ac yn helpu i godi safonau gofal ledled y maes. Bydd staff o Sefydliad Cenedlaethol Gwaith Cymdeithasol (NISW) yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu SCIE, gan adeiladu ar arbenigedd NISW yn y gwaith o ddatblygu a lledaenu gwybodaeth ar ofal cymdeithasol. Bydd SCIE yn gweithio'n

agos gyda sefydliadau presennol a newydd yn y maes gofal cymdeithasol, megis yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chyngor Gofal Cymru, i weithredu Strategaeth Ansawdd y Llywodraeth ar gyfer gofal cymdeithasol.

Mae sefydlu SCIE fel canolfan wybodaeth yn un agwedd ar nod y Llywodraeth o wella gwybodaeth a systemau gwybodaeth o fewn y sector gofal cymdeithasol. Mae systemau gwybodaeth da yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau o safon uchel sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau defnyddwyr y gwasanaeth. Darparwyd cyllid hefyd drwy'r Adolygiad Gwariant i helpu awdurdodau i fynd i'r afael â'r agenda rheoli gwybodaeth. Yng Nghymru, mae £6miliwn pellach wedi'i glustnodi dros y 3 blynedd nesaf i ddatblygu systemau rheoli gwybodaeth i gefnogi'r Agenda ar gyfer gwella ansawdd.

## **6.4 Datblygu Rheoli Perfformiad mewn Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cytunwyd ar set derfynol o Ddangosyddion Perfformiad a gofynion gwybodaeth ar gyfer 2001/2, a fydd yn darparu sylfaen i awdurdodau baratoi adroddiadau i'r Cynulliad eleni. Yn ystod y flwyddyn, bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn rheoli proses dilysu data gynhwysfawr i helpu awdurdodau i sicrhau bod adroddiadau'n seiliedig ar ddata cymharol.

Er mwyn sicrhau cyffredinedd o ran diffinio a chasglu data, bydd gwasanaethau gofal cymunedol yn newid i ddefnyddio diffiniadau a dynnwyd o system 'Cyfeiriadau, Asesiadau a Phecynnau Gofal' yr Adran Iechyd i sicrhau bod awdurdodau Cymru a Lloegr yn datblygu eu gwybodaeth perfformio ar yr un sylfaen.

Ar hyn o bryd, mae ymgynghoriad ar y gweill i Strategaeth Rheoli Perfformiad ffurfiol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a rheolaeth fanwl y Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad arfaethedig, cronfa £7.35m i alluogi awdurdodau i weithredu trefniadau rheoli perfformiad modern mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a diweddarau eu systemau gwybodaeth rheoli.

Mae'r strategaeth yn gosod y sylfaen ar gyfer rhaglen barhaus o wella rheoli perfformiad a monitro yn y dyfodol, gan ehangu a gwella ansawdd rheoli perfformiad a gwybodaeth mewn gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r strategaeth arfaethedig hefyd alluogi gwell cydweithio gyda gwasanaethau iechyd (yn enwedig gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol) ar ôl datblygu'r trefniadau ar gyfer hyn drwy weithredu 'Gwella Iechyd yng Nghymru'.

Sefydlwyd cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol gydag awdurdodau i nodi meysydd posib ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau posib o'r arbenigedd cyfyngedig iawn sydd ar gael mewn awdurdodau ar gyfer y maes gwaith arbenigol iawn hwn. Disgwylir y bydd awdurdodau yn gwneud cais i ddefnyddio peth o'r grant ar y cyd.

Dechreuwyd trafod sut i ddatblygu rhaglen datblygu rheolaeth yng Nghymru gyda

Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y gwahanol awdurdodau.

## **7. AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU: GWEITHREDU**

Rwyf wedi cytuno i gynigion ar gyfer 8 o'r 11 lleoliad swyddfa, a fydd yn angenrheidiol ar gyfer darparu Pencadlys a swyddfeydd rhanbarthol i'r Arolygiaeth newydd. Bydd gwaith yn dechrau'n fuan ar baratoi cyfleusterau yn y llefydd canlynol:

- Caernarfon ar gyfer swyddfa ranbarthol y Gogledd Orllewin;
- Bae Colwyn ar gyfer swyddfa leol y Gogledd Orllewin;
- Llandrindod ar gyfer swyddfa ranbarthol Canolbarth Cymru;
- Caerfyrddin ar gyfer swyddfa ranbarthol Gorllewin Cymru;
- Hwlfordd ar gyfer un o swyddfeydd lleol Gorllewin Cymru;
- Parc Busnes Abertawe ar gyfer swyddfa ranbarthol y De Orllewin;
- Tremorfa ar gyfer swyddfa ranbarthol Caerdydd;
- Nantgarw ar gyfer swyddfa Bro Morgannwg a'r Cymoedd a'r Pencadlys.

Mae tîm y prosiect yn dal i chwilio am eiddo yn Aberaeron ar gyfer dalgylch gogleddol rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Wyddgrug/Wreccsam ar gyfer rhanbarth y Gogledd Ddwyrain. Mae Pontypwl hefyd yn cael ei ystyried fel lleoliad ar gyfer rhanbarth y De Ddwyrain. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y lleoliadau hyn yn y dyfodol agos.

## **8. CYLLID**

### **8.1 Sefyllfa Gyffredinol**

Mae'r rhagolwg presennol yn dangos tanwariant o £34 miliwn yn erbyn y ddarpariaeth a ddyfarnwyd ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2000-2001. Mae'r rhagolwg yn nodi tanwariant o £30.5 miliwn ar gyfer iechyd a £3.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r tanwariant hwn wedi'i adolygu ac wedi'i ymrwymo neu ei adlewyrchu mewn datganiadau gwariant a wnaed eisoes mewn cysylltiad â lansio *Gwella Iechyd yng Nghymru*, neu'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi costau uwch gwariant gwasanaethau iechyd teuluol o ganlyniad i gynnydd amcanol mewn gweithgarwch contractwyr i gefnogi gweithredu Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol a datblygiadau eraill mewn gofal sylfaenol.

### **8.2 Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS**

Rhagwelir gwarged o £18 miliwn ar gyfer Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS yn 2000-01 ac mae yna nifer o ffactorau ansicr o hyd a allai effeithio ar y canlyniad terfynol.

Mae cyfran helaeth o'r gwarged hwn wedi codi o'r cyllid achlysurol a ddarparwyd sydd wedi



galluogi unioni diffygion o flynyddoedd blaenorol ac

ad-dalu dyled a/neu alluogi cyllido diffygion sylfaenol heb orfod benthyg arian. (Asesir y sefyllfa ariannol sylfaenol fel diffyg o £10-11 miliwn).

Mae gweddill y tanwariant yn codi'n bennaf o ganlyniad i oedi mewn gweithredu datblygiadau newydd yn y sector gofal sylfaenol a gofal dwys, yn bennaf oherwydd yr amser sydd ei angen i ddatblygu cynlluniau buddsoddi a recriwtio staff yn dilyn cyhoeddi adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd ddiwedd mis Mawrth 2001. Roedd y sefyllfa hon wedi ei rhagweld a'r incwm na chafodd ei wario wedi'i ffactoroedd i gynlluniau gwariant ar gyfer 2001-02.

Mae Ann Lloyd bellach wedi ysgrifennu i Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd gyda manylion am y pecyn £20 miliwn newydd a gyhoeddwyd ar 9 Ebrill a phecyn £10 miliwn *Gwella Iechyd yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Gofynnwyd i gydweithwyr yn yr NHS gyflwyno cynigion buddsoddi yn erbyn y cyllid ychwanegol ar gyfer gallu i ddiwallu'r galw uwch (£1.0 miliwn) ac ar gyfer iechyd rhyw/atal afiechyd (£545k), erbyn 30 Ebrill.

Mae'r £20 miliwn yn cael ei ddsbarthu fel a ganlyn:

£3.100 miliwn	Gofal Sylfaenol
£1.776 miliwn	Recriwtio a chadw nyrsus
£4.000 miliwn	Sector eilaidd (gallu i ddiwallu galw uwch ac offerynnau defnydd unigol)
£4.000 miliwn	Gweithredu <i>Gwella Iechyd yng Nghymru</i>
£2.000 miliwn	Cyfalaf (Adrannau Cyflenwadau Di-haint Canolog)
£0.060 miliwn	Cefnogaeth i adeiladau gofal sylfaenol a deintyddiaeth
£4.000 miliwn	Safonau gofal canser
£1.000 miliwn	Gwasanaethau iechyd meddwl
<b>£19.936 miliwn</b>	

Cyfarfu Mrs Lloyd hefyd â phob awdurdod iechyd i drafod y mater ehangach o fuddsoddi a pherfformiad. Mae'n bwriadu cynnal cyfarfodydd perfformio chwarterol gyda phob ardal.